Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
7:00 y.h. 18 Hydref, 2012
Siambr y Cyngor, Prif Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Yn bresennol:

Enw:	*Cyngor Cymuned/Tref yn ei gynrychioli:*
Eifion H Jones	Pentraeth
Arnold Milburn	Llangefni
A W Jones	Mechell
John Roberts	Llanfaipwllgwyngyll
Anwen McCann	Trearddur
Jack Abbott	√
Mr Ian Owen	Llanfihangel Esceifiog
Mr Edward J Thomas	Llanfihangel Esceifiog
Elfed Jones	Llanbadrig
Richard Eric Hughes	√
Jayne Sanderson	√
Cyng. Stan Zalot	Beaumaris
Cyng Betty Kotkowicz	Beaumaris
Cliff Everett	Caergybi
Cyng. Jean Alexandra Llewelyn Williams	Caergybi
Anna Jones	Tref Alaw
Graham Owen	Bryngwran
Emma Cox	Llanfaelog
John Jukes	Llannerch-y-Medd
Jackie Jones	√
Gwenda Owen	Y Fali
Trefor Jones	√
	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Bryan Owen	Arweinydd
Gwen Carrington	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Einir Thomas	Pennaeth Gwasanaeth Cyllid
Huw Jones	Pennaeth Gwasanaeth, Polisi,
Alan Williams	Rheolwr Gwasanaethyau Etholiadol a Chynlluniau Argyfwng
Eurwyn Griffith	Swyddog Polisi

Ymddiheuriadau:

Marilyn Hughes	Amlwch
Y Cyng Selwyn Williams	
Margaret Price	Trewalchmai
Griff Pritchard	Llanfair Mathafarn Eithaf
Mrs Helen Grantham	Rhosyr
Miss Enid R Mummery	√

Cynhaliwyd y cyfarfod o dan Gadeiryddiaeth y Cyng. Bryan Owen, Arweinydd, Cyngor Sir, Ynys Môn.

1. Siarter Cynghorau Tref a Chymuned ar y cyd

Nododd y Pennaeth Gwasanaeth - Polisi fod y Siarter drafft a ddeilliodd o'r ymgynghoriad a gylchredwyd am sylwadau yn y Gwanwyn bellach wedi mynd trwy gylch cymeradwyo'r Cyngor. Mae'r fersiwn terfynol yn cynnwys un newid sylfaenol i ymrwymo i gynnal tri chyfarfod cyswllt yn flynyddol yn hytrach na phedwar ac wedi'i gylchredeg gyda agenda'r Pwyllgor.

2. Adnewyddu Democrataidd

Etholiadau Mai, 2013

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol a Chynlluniau Argyfwng i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru awgrymu 30 Aelod i 11 ardal etholedig newydd ar gyfer Ynys Môn i'r Gweinidog ym mis Mai eleni. Dosbarthwyd canllawiau i ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol a baratowyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Gweithred: Dosbarthu copi o'r canllawiau i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.

3. Ymgynghoriadau

3.1 Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar Ynys Môn

Cyflwynwyd y ddogfen Ymgynghori 'Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar Ynys Môn' gan y Cyfarwyddwr Cymuned. Esboniodd fod cyfnod ymgynghori yn dod i'r ben ar y 7fed Rhagfyr, 2012. Anogwyd Cynghorau Tref a Chymuned i gyflwyno eu sylwadau.

3.2 Rhagolygon Cyllideb y Cyngor Sir 2013/2014

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaeth – Cyllid y rhagolygon ar gyfer Cyllideb 2013/14. Rhoddwyd sylw penodol i setliad cychwynnol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 16 Hydref ac effaith hyn ar wasanaethau'r Cyngor**.**

Cyfeiriwyd yn benodol at y pwysau ariannol gan gynnwys effaith ad-drefnu'r gyfundrefn Lles a newidiadau o ran budd-dal treth y Cyngor.

Nodwyd y bydd y Cyngor yn ymgynghori'n fuan ar gynigion drafft y gyllideb 2013/14.

3.3 Y Cynllun Datblygu Lleol

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaeth - Polisi sylw at Newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Awst 2012) sy'n nodi amserlen y Cynllun er gwybodaeth.

3.4 Y Cynllun Integredig – Ein Hynys – Ein Dyfodol

Nododd y Pennaeth Gwasanaeth - Polisi y bydd ymgynghoriad yn dechrau mis nesaf ar gynnwys y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn sy'n dod a chynlluniau partneriaethol lefel uchel statudol at eu gilydd mewn un cynllun. Esboniodd fod y gwaith hwn yn adeiladu ar yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Gymunedol a gychwynnwyd ddiwedd 2011.

4. Unrhyw fater arall

Anogodd John Roberts y Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd y cyfle i gael gwybod mwy am, ystyried ac ymateb i ymgynghoriad cyfredol y National Grid ar ei gynigion i gysylltu cynlluniau cynhyrchu trydan newydd yng Ngogledd Cymru. Bydd Un Llais Cymru yn cynnal cyfarfod yn fuan i drafod.

5. Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr, 2013 heb gyd-daro gyda Chyfarfod Ardal Un Llais Cymru. Anogwyd y rhai a oedd yn bresennol i dynnu sylw'r Cyngor Sir at unrhyw fater yr hoffent ei drafod yn y cyfarfod hwnnw.